

Rhan 2 – Cyflwyniad

Sleid 1

Prynhawn da, fy enw i yw Heledd James 2004259 a heddiw dwi'n mynd i sôn i chi am fy ngwaith, addysg a beth sydd i ddod yn y dyfodol.

Sleid 2

Rhan 1 – dylanwadau ar eich safle a'ch persbectif eich hun

Dros y blynyddoedd mae nifer o bethau gwahanol wedi dylanwadu ar fy safle a phersbectif, mae hyn yn amrywio o fentoriaid, cyfleoedd dysgu, profiadau personol a swyddi. Dwi'n hynod o lwcus yn fy mywyd mae yna amryw o fenywod yn bennaf wedi fy mentora neu dwi'n ei weld fel model rôl. Awgryma Arnesson a Albinsson (2017) bod mentor yna i roi arweiniad i'r mentora. O ran fy ngwaith mae yna un fenyw sydd wir yn sefyll allan – pan ddechreuais i yn yr ysgol roedd y ddwy ohonom yn cefnogi plentyn ag awtistiaeth - byddem yn rhannu'r diwrnodau felly fi byddai'r un i un tri diwrnod yr wythnos a hi ddwywaith yr wythnos. Hwn oedd fy swydd gyntaf yn gweithio gyda phlentyn ag anghenion dysgu ychwanegol felly ar y tu fewn ro'n ni'n nerfus iawn a ddim yn gwybod beth i ddisgwyl. Ond cymerodd hi fi o dan ei hadain a chynigodd hi gefnogaeth aruthrol i mi a fy ngrymuso i deimlo'n bwerus o fewn fy rôl, mynna Balyer, Ozcan a Yildiz (2017) os teimlwn yn bwerus gallwn ddarganfod ein potensial a'n cyfyngiadau i ni ein hunain yn ogystal â datblygu cymhwysedd yn ein datblygiad proffesiynol. I fod yn onest mae'r ffordd rydw i'n ymdrin â llawer o sefyllfaoedd yn fy swydd yn adlewyrchiad o'i harfer gwyh hi. Yn ychwanegol iddi hi dwi'n ffodus iawn fy mod i wedi cael mentoriaid anhygoel o fewn y chweched dosbarth ac o fewn y brifysgol. Mae'r unigolion yma wastad wedi cael ffydd yn yr hyn gallaf gyflawni ac maen nhw bob amser wedi bod yn barod i wrando arna i a chynnig cymorth, byddaf wastad yn ddiolchgar i'r unigolion yma. O ran fy mywyd personol mae fy Mamgu a Dadcu wedi bod yn ddylanwadau hollbwysig trwy gydol fy mywyd, bob amser yn fy ysbrydoli i gyflawni fy mhotensial llawn ac i freuddwydio'n fawr.

Yn ffodus dwi wedi cael amryw o gyfleoedd i gyd-weithio gyda phlant o ystod oedrannau gwahanol. Fel dywedwyd yn barod fe wnes i weithio mewn ysgol gynradd fel un i un i blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol ac rwy'n ffodus fy mod i wedi parhau i weithio

yn yr un lleoliad ond nawr dwi'n cefnogi plentyn arall. Yn ogystal dwi wedi cael fy nghyflogi gan feithrinfa leol yn y gorffennol – roedd y lleoliad yn rhoi llawer o bwyslais ar blant yn chwarae a dysgu yn yr awyr agored, mwynheais yn mawr weld y plant yn elwa o'r profiadau hyn. Hefyd dwi wedi gweithio mewn clwb drama leol i blant – roedd hyn yn gyfle gwyh i gefnogi plant i ddod yn fwy hyderus o fewn eu hun dros y flwyddyn a datblygu amryw o sgiliau actio. Mae'r cyfleoedd yma i gyd wedi fy ngalluogi i roi'r hyn dwi wedi ei ddysgu yn y brifysgol ar waith a gweld y buddion yn uniongyrchol. Ar yr un trywydd mae'r swyddi wedi fy ngalluogi i ddatblygu fy sgiliau yn gyffredinol wrth i mi weithio gyda phlant, dwi wedi gallu datblygu'r ffordd rwy'n meddwl yn feirniadol a sut dwi'n datrys problemau o fewn y gweithle. Rydw i wedi cael cyfleoedd i asesu plant ac i gynllunio sesiynau. Dwi hefyd wedi dod i ddeall y ffyrdd orau i cyfathrebu gyda phlant boed yn gyfathrebu geiriol neu ddi-eiriau.

Dwi'n ffodus fy mod i wedi cael cyfleoedd dysgu yn benodol trwy fy ngradd brifysgol, cefais gyfleoedd i ddysgu am ddatblygiad plant, ei sgiliau iaith, ffactorau sydd yn effeithio ar ei lles a sut gallwn ddefnyddio cynaladwyedd o fewn ein hymarfer i enwi dim ond rhai. Awgryma Martin a Bolliger (2018) trwy gyfleoedd dysgu mae myfyrwyr yn caffael gwybodaeth ond hefyd yn datblygu sgiliau meddwl beirniadol a sgiliau datrys problemau. Trwy hyn cefais fy ngwthio i gyflwyno gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol er enghraifft llyfr lloffion, traethodau, recordiadau a chyflwyniadau ac yn eu tro mae'r rhain wedi datblygu fy sgiliau TGCh, sgiliau cyfeirnod a fy ysgrifennu academiaidd ymhellach. Nodir University of New Brunswick (dim dyddiad) bod angen i fyfyrwyr allu cymhwyso gwybodaeth mewn gweithgareddau dysgu ac asesu dilys er mwyn datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gwaith.

Hefyd dwi wedi gallu datblygu fy ymarfer a fy hun trwy gyrsiau yn y gwaith megis hyfforddiant gydag AwtistiaethCymru.org (2020), ELKLAN (dim dyddiad) a positive play (Cyngor Sir Gaerfyrddin, dim dyddiad a). Dwi wir yn credu bod y rhain wedi fy ngwthio ymhellach yn fy ngyrfa ac wedi fy ngalluogi i lwyddo o fewn fy swydd. Mae datblygiad proffesiynol parhaus, yn sicrhau bod staff yn parhau i gyflwyno lefel uchel o safonau addysg i'w myfyrwyr a sicrhau eu bod yn gallu addasu i ddatblygiadau newydd ac anghenion cyfnewidiol myfyrwyr (McMillan, McConnell a O'Sullivan, 2014). O fewn fy

ngwaith mae'n hollbwysig fy mod i'n cydymffurfio gyda 'Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth' (Llywodraeth Cymru, 2019). Sef safonau sydd wedi sydd wedi'u hanelu'n benodol at gynorthwyrwyr addysgu. O fewn fy rôl rwy'n sicrhau fy mod i yn helpu gydag asesu plant, rwy'n arsylwi'r dysgwyr a helpu i ddarparu'r adnoddau priodol iddynt (Llywodraeth Cymru, 2019). Gan fy mod i'n gweithio'n un i un gyda phlentyn ag anghenion dysgu ychwanegol rhaid i mi sicrhau bod y disgybl yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial llawn fel dywed o fewn y ddogfen 'Rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol' (Llywodraeth Cymru, 2018), hefyd nodir o fewn 'Polisi Anghenion Gofal Iechyd Ysgolion' fy ngweithle'r angen am gefnogaeth effeithiol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (Ysgol Gynradd Llanddarog, 2017).

Mae'n bosib i mi gefnogi disgybl yn fy ngofal wrth ddefnyddio dogfennau megis y proffil un dudalen sef dogfen bositif sy'n galluogi pobl i ddod i adnabod y disgybl (Cyngor Sir Gaerfyrddin, dim dyddiad b) a'r cynllun datblygu unigol sydd yn ddogfen gyfreithiol sy'n disgrifio anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc, y cymorth sydd ei angen arnynt, a'r canlyniadau yr hoffent eu cyflawni (Snap Cymru, dim dyddiad). Mae'n hollbwysig fy mod i yn sicrhau bod hawliau'r plant wrth wraidd popeth rwy'n ei wneud (UNICEF, 2019) yn enwedig erthygl 2; dylai plant cael eu trin yn gyfartal (Comisiynydd Plant Cymru, 2022 a) ac erthygl 12; bod gan blant ac anghenion dysgu ychwanegol barn eu hun am ei addysg (Cyngor Sir Gaerfyrddin, 2023).

Fel nodwyd Harris et al (2020) mae Cymru yn mynd trwy newidiadau i'w system addysg ar hyn o bryd, sef y Cwricwlwm i Gymru sydd yn ganlyniad o ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015). Ychwanega Knight a Crick (2021) o fewn y diwygiadau hyn mae ymrwymiad o'r newydd i addysg gynhwysol, nodir yr hawliau a dylai ymarferwyr cydnabod cyfrifoldeb am bob dysgwr o fewn cymuned ysgol (Nilhom, 2021). Un ffordd dwi'n ceisio gwneud hyn yn fy ymarfer er enghraifft yw trwy'r defnydd o iaith hygyrch, wrth wneud hyn mae'n bosib grymuso plant fel nodwyd o fewn y ddogfen 'The Right Way' (Comisiynydd Plant Cymru, 2022 b). Nodwyd Darling-Hammond *et al.*, (2020) bod staff addysgu yn hollbwysig i sefydlu addysg gynhwysol, felly mae'n rhan hynod o bwysig o fy swydd a chaiff hyn ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru (2019).

Yn ystod fy ngradd BA cefais amryw o gyfleoedd i ymchwilio mewn i ddamcaniaethwyr blynyddoedd cynnar, wrth werthuso fy rôl i yn y gwaith rwy'n credu yn gryf bod ddamcaniaethwyr megis Vygotsky a Maslow yn cael effaith ar fy ymarfer. Er enghraifft rwy'n defnyddio'r damcaniaeth 'sgaffaldio' Vygotsky sydd yn ôl Chen a Adams (2022) yn angenrheidiol i ddysgu plant. Wrth i mi roi'r ddamcaniaeth ar waith yn fy ymarfer, mae'n fy ngalluogi i gefnogi datblygiad y plant o fewn fy ngofal (Margolis, 2020). Ar yr un trywydd, rwy'n ceisio sicrhau amgylchedd diogel a meithringar i'r plant sydd yn gysylltiedig â theori hierarchaeth anghenion Maslow (Fisher a Crawford, 2020). Trwy'r defnydd o'r broses di-ganoli dwi wedi gallu cydnabod sut mae fy mhrofiadau personol penodol wedi gadael argraffnodau annileadwy ar fy seice. Awgryma Bernstein *et al.*, (2016) daw di-canoli i'r amlwg fel arf amhrisiadwy ar gyfer taflu goleuni ar y cysylltiadau cywrain rhwng profiadau personol a hunaniaeth unigol.

Sleid 3

Rhan 2 – eich taith i ymgymryd a'r rhaglen hon

O ran fy nhaith i ymgymryd â'r rhaglen hon, fel llawer dechreuodd fy nhaith addysg mewn meithrinfa ac yna fe wnes i ddechrau yn yr ysgol gynradd yn dair blwydd oed. Wedi hynny, es i ymlaen i'r ysgol uwchradd ac ym mlwyddyn un ar ddeg fe wnes i'r penderfyniad i barhau gyda fy addysg yn yr un ysgol er mwyn astudio fy lefelau A. Rhywbeth oedd yn sefyll allan i mi wrth i mi fyfyrar ar fy mhrofiadau oedd y cyswllt cyson i ofalu am blant a phobl ifanc. Mae'r profiadau yma yn amrywio o fod yn fonitor amser chwarae gwlyb i'r plant dosbarth derbyn a meithrin pan oeddwn ym mlwyddyn 5 a 6, i fod yn fentor i ddisgyblion oedd yn llai na fi ym mlwyddyn 12, bod yn swog Llangrannog i flwyddyn saith pan oeddwn i'n flwyddyn 13 i redeg y clwb drama amser cinio i blant lleiaf yr ysgol. Yn ystod blwyddyn 12 ges i'r cyfle i wneud wythnos o brofiad gwaith mewn ysgol gynradd ac fe wnes i fwynhau mas draw ond er fy mhrofiadau i gyd wnes i erioed ystyried dilyn gyrfa yn gweithio gyda phlant.

Felly, wedi i mi gael fy nghanlyniadau lefel A roedd yn amser i mi symud i Gaerdydd i ddechrau fy nghwrs 'Nyrsio Iechyd Meddwl' - credais yn gryf taw hwn oedd y cwrs i mi, roedd hyn yn rhywbeth roedden ni mor angerddol amdano ond sylweddolais yn gyflym nad dyma'r peth iawn i mi bellach. Felly beth nawr oedd y cwestiwn yn gyson ar fy meddwl

a dyna phryd awgrymodd mam y cwrs Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac ar ôl ymweliad a sgwrs gyda'r darlithwyr fe wnes i'r penderfyniad i ymgeisio. Tair blynedd yn ddiweddarach dwi wedi graddio ac yn hynod o hapus fe wnes i'r cwrs, er bod y flwyddyn gyntaf wedi bod hollol ar-lein o ganlyniad i'r pandemig fe wnes i wir mwynhau fy amser ar y cwrs ac yn bendant wedi datblygu yn bersonol ac yn broffesiynol o ganlyniad i'r radd.

Tua'r amser hyn llynedd roedd yn amser i mi feddwl am y camau nesaf, a oedden i eisiau gwneud cwrs TAR, parhau i weithio neu a oedden i yn mynd i barhau gyda fy addysg a gwneud cwrs meistr? A dyna phryd cefais wybod am y cwrs hwn ac roedd gen i ddiddordeb o'r cychwyn cyntaf. Er roedd yna adegau doeddwn i ddim yn credu fy mod i'n ddigon da ar gyfer y cwrs, ar ôl nifer o sgysiau gyda fy nheulu a rhai darlithwyr cymerais y naid a gwneud cais a dyma fi heddiw yn cyflwyno fel rhan o fy modiwl cyntaf ar y cwrs.

Trwy'r cwrs yma dwi'n gobeithio ehangu fy nealltwriaeth o fewn fy maes dewisedig; Anghenion dysgu ychwanegol yn benodol yn ffocysu ar awtistiaeth o fewn plant. Y bwriad yw ymchwilio'n ddyfnach mewn i'r maes trwy'r aseiniadau a fydd yn arwain at ehangu fy nealltwriaeth. Mae'r ddealltwriaeth yma yn hollbwysig er mwyn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn modd hynod o fuddiol iddyn nhw (GOV.UK, dim dyddiad). Rwy'n gobeithio datblygu fy sgiliau cyflwyno ac ysgrifennu academiaidd ymhellach eto ac o safbwynt personol dwi'n gobeithio bydd y cwrs meistr yma yn datblygu fy hyder ac i raddau fy hunan-ffydd o fewn fy ngallu, bydd y sgiliau hyn dros amser yn adlewyrchu yn fy ymarfer proffesiynol hefyd sydd yn ôl Rodd (2020) yn hanfodol i greu amgylcheddau dysgu cadarnhaol i eraill.

Sleid 4

Rhan 3 – Nodi'r camau nesaf

Felly, wrth i mi edrych ymlaen at y dyfodol rhaid gofyn y cwestiwn, beth sydd yn dod nesaf?

I fod yn hollol onest yr ateb i'r cwestiwn hwn ydy; dwi ddim yn gwybod. Yn y byr dymor, rwy'n bwriadu parhau gyda'r cwrs yn ogystal â gweithio fel un i un mewn ysgol gynradd nes fy mod i'n graddio. Gellir gweld wrth fy nghynllun dysgu personol o fewn fy swydd dwi



am barhau i gael partneriaeth glos a chryf gyda rhieni; mae hyn yn hollbwysig er mwyn cefnogi'r plentyn dwi'n gweithio gyda (Halimah a Mirawati, 2020), dwi am ehangu fy nealltwriaeth am awtistiaeth, a fydd yn ôl Vincent a Ralston (2019) yn fy ngalluogi i gynllunio ymyraethau yn well. Yn yr un modd dwi am gyd-weithio gyda staff er mwyn gweithredu a chynllunio sesiynau ymyriadau o safon a fydd yn cefnogi'r plant (Hawthorne, 2023). Dyma'r camau dwi am gymryd er mwyn sicrhau llwyddiant a dilyniant o fewn fy rôl bresennol fel un i un.

Yn yr hir dymor, wedi i mi raddio hoffwn i fod yn rhan o dîm darlithio'r cwrs Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar yma yn y brifysgol gan fy mod i wir wedi mwynhau ei astudio a hoffwn i'r cyfle i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ymarferwyr yn yr un modd cefais i fy ysbrydoli. Yn benodol, hoffwn i gyd-weithio i greu gradd yn ymwneud ag Anghenion Dysgu ychwanegol yn benodol trwy'r cyfrwng Gymraeg gan fod hyn yn clymu dau beth ddwi'n angerddol amdano gyda'i gilydd; anghenion dysgu ychwanegol a'r iaith Gymraeg. Credaf fod hyn yn hollbwysig yn enwedig yn sgil y prinder ymarferwyr Cymraeg (Iorwerth, 2020) a (Senedd Cymru, 2023). Trwy hyn byddai'n cael y cyfle i gydymffurfio a safonau'r Gymraeg fel rhan o ddeddfwriaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Comisiynydd y Gymraeg, 2024) yn benodol safon 23 sydd yn nodi'r hawl i gyflwyno gwaith brifysgol yn y Gymraeg (Senedd Cymru, 2017). Neu hoffwn i weithio o fewn swydd yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol plant neu awtistiaeth – efallai mewn swydd sydd yn cefnogi'r rheiny i gefnogi'r plant a'r anghenion dysgu ychwanegol ac efallai yn gweithredu hyfforddiant o ryw fath, gan fod hyn yn faes o ddiddordeb i mi. Ond pwy a wŷr beth gall y dyfodol edrych fel.

Mae llawer o'r pethau dwi wedi sôn am heddiw yn rhan annatod ohonof i fy hun. Fel dangoswyd Scottish Government (2022) trwy'r olwyn amrywiaeth, mae yna amrywiaeth eang o bethau sy'n gwneud person pwy ydyn nhw ac mae beth ddwi wedi trafod heddiw yn dangos i chi rhai o'r pethau sydd yn gwneud fi yn fi.

Sleid 5

Diolch i chi gyd am wrando pnawn 'ma.

Pwerbwynt:

RHAN 2 – EICH TAITH I YMGYMRYD A'R RHAGLEN HON




(Glenholme Nursery and Carmarthen
Care Clubs, dim dyddiad)



(Ysgol Gynradd Llangynnwr,
dim dyddiad)




(Ysgol Gyfun Gymraeg Bro
Mynydd, dim dyddiad)



(Prifysgol Cymru y Drindod
Dewi Sant, dim dyddiad)

RHAN 3 – NODI'R CAMAU NESAF



(Vectors, dim dyddiad)



(Shutterstock, dim dyddiad c)



(Alamy, dim dyddiad)



(Powys, dim dyddiad)



RHESTR CYFEIRNODI:

Alamy (dim dyddiad) *Cartoon female teacher with pointer stick*. Ar gael o:

<https://www.alamy.com/cartoon-female-teacher-with-pointer-stick-image548987515.html>

(Darllenwyd: 12 Ionawr 2023).

Glenholme Nursery and Carmarthen Care Clubs (dim dyddiad). *Glenholme Nursery and Carmarthen Care Clubs*. Ar gael o: https://www.facebook.com/glenholmenursey/posts/2976569652554801/?locale=zh_CN&paipv=0&eav=AfaTPsTGbxYPP6xB2E3YIW1IMw-Kkgf55OJiNTosqhkKQyLjPvv6qj3u4lKEqPwHYQ&_rdr

(Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

GWE (2018) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael o: <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2018/02/Diweddariad-ar-Gwricwlwm-i-Gymru.pdf>

(Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Powys (dim dyddiad) *ALN Transformation*. Ar gael o: <https://en.powys.gov.uk/article/6360/ALN-Transformation> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

RHESTR CYFEIRNODI:

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (dim dyddiad) *Inspire*. Ar gael o:

<https://www.uwtsd.ac.uk/inspire/> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Shutterstock (dim dyddiad a) *Mentoring Cartoon royalty-free images*. Ar gael o:

<https://www.shutterstock.com/search/mentoring-cartoon?consentChanged=true> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Shutterstock (dim dyddiad b) *Cartoon Teacher royalty-free images*. Ar gael o:

<https://www.shutterstock.com/search/cartoon-teacher> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Shutterstock (dim dyddiad c) *Teacher Cartoon royalty-free images*. Ar gael o:

<https://www.shutterstock.com/search/teacher-cartoon> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2023).

The Autism Page (2019) *One Page Profile*. Ar gael o: <https://www.theautismpage.com/one-page-profile/> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

RHESTR CYFEIRNODI:

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin (dim dyddiad) *Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin*. Ar gael o:

<https://www.yggbme.org/> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Ysgol Gynradd Llangynnwr (dim dyddiad) *Ysgol Gynradd Llangynnwr*. Ar gael o:

https://www.llangynnwr.ysgolccc.cymru/?doing_wp_cron=1705100509.6004960536956787109375 (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Vectors (dim dyddiad) *Graduate Student Cartoon*. Ar gael o: <https://www.vecteezy.com/vector-art/25755106-graduate-student-cartoon-avatar-on-white-background-elements-graduating-student-illustration-vector-people-illustration>

(Darllenwyd: 12 Ionawr 2014).

Rhestr Cyfeirnod:

Alamy (dim dyddiad) *Cartoon female teacher with pointer stick*. Ar gael o: <https://www.alamy.com/cartoon-female-teacher-with-pointer-stick-image548987515.html> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2023).

Arnesson, K. a Albinsson, G. (2017) 'Mentorship – a pedagogical method for integration of theory and practice in higher education', *Nordic Journal of Studies in Educational Policy*, 3(3), tt. 202-217. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/20020317.2017.1379346>

Awtisiaeth Cymru.org (2020) *eLearning*. Ar gael o: <https://autismwales.org/en/resources/elearning/> (Darllenwyd: 5 Ionawr 2024).

Balyer, A. a Ozcan, K. a Yildiz, A. (2017) 'Teacher Empowerment: School Administrators' Roles', *Eurasian Journal of Educational Research*, 70, tt. 1-18. Ar gael o: <http://dx.doi.org/10.14689/ejer.2017.70.1>

Bernstein, A. *et al.*, 'Decentering and Related Constructs: A Critical Review and Metacognitive Processes Model', *Perspect Psychol Sci*, 10(5), tt. 599-617. Ar gael o: [10.1177/1745691615594577](https://doi.org/10.1177/1745691615594577)

Chen, J. a Adams, C. (2022) 'Drawing from and Expanding their Toolboxes: Preschool Teachers' Traditional Strategies, Unconventional Opportunities, and Novel Challenges in Scaffolding Young Children's Social and Emotional Learning During Remote Instruction Amidst COVID-19', *Early Childhood Education Journal*, (51) tt. 925-937. Ar gael o: <https://doi.org/10.1007/s10643-022-01359-6>

Comisiynydd Plant Cymru (2022 a) *Know your rights*. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/04/CCfW-A2-Rights-Poster-ENGLISH-AW-Rocio.pdf> (Darllenwyd: 5 Ionawr 2024).

Comisiynydd Plant Cymru (2022 b) *The Right Way*. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/RightWay-AdditionalLearningNeeds-1.pdf> (Darllenwyd: 6 Ionawr 2024).

Comisiynydd y Gymraeg (2024) *Mesur y Gymraeg*. Ar gael o: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/amdanom-ni/mesur-y-gymraeg> (Darllenwyd: 11 Ionawr 2024).

Cyngor Sir Gaerfyrddin (2023) *Voice of the child/young person*. Ar gael o: <https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/education-schools/additional-learning-needs/voice-of-the-child-young-person/#:~:text=Article%2012%20of%20the%20United,the%20most%20of%20their%20education>. (Darllenwyd: 7 Ionawr 2024).

Cyngor Sir Gaerfyrddin (dim dyddiad a) *Behavioural, Emotional and Social skills*. Ar gael o: <https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/education-schools/additional-learning-needs/behavioural-emotional-and-social-skills/> (Darllenwyd: Ionawr 5 2024).

Cyngor Sir Gaerfyrddin (dim dyddiad b) *What is a One Page Profile?* Ar gael o: <https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/education-schools/additional-learning-needs/additional-learning-needs-decision-making-process/3-what-is-a-one-page-profile/> (Darllenwyd: 6 Ionawr 2024).

Darling-Hammond, L. *et al.*, (2020) 'Implications for educational practice of the science of learning and development', *Applied Developmental Science*, 24(2), tt. 97-140.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

ELKLAN (dim dyddiad) *Training for Schools and Settings*. Ar gael o: <https://www.elklan.co.uk/Training/Settings/> (Darllenwyd: 6 Ionawr 2024).

Fisher, M. a Crawford, B. (2020) 'From School of Crisis to Distinguished': Using Maslow's Hierarchy in a Rural Underperforming School', *The Rural Educator*, 41(1), tt. 8-19. Ar gael o: <https://doi.org/10.35608/ruraled.v41i1.831>

Glenholme Nursery and Carmarthen Care Clubs (dim dyddiad). *Glenholme Nursery and Carmarthen Care Clubs*. Ar gael o: https://www.facebook.com/glenholmenursey/posts/2976569652554801/?locale=zh_CN&paipv=0&eav=AfaTPsTGbxYPP6xhB2E3YIW1IMw-Kkgf55OJiNTosqhkKQyLjPvv6qj3u4IKEqPwHYQ&_rdr (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

GOV.UK (dim dyddiad) *Meeting the needs of all children*. Ar gael o: <https://help-for-early-years-providers.education.gov.uk/get-help-to-improve-your-practice/meeting-the-needs-of-all-children> (Darllenwyd: 7 Ionawr 2024).

GWE (2018) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael o: <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2018/02/Diweddariad-ar-Gwricwlwm-i-Gymru.pdf> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Halimah, L. a Mirawati, M. (2020) 'Teacher-Parent Partnership on Early Childhood Education Curriculum Development', *Advances in Social Science, Education and Humanities Research*, 487, tt. 212-222. Ar gael o: <file:///Users/heleddjames/Downloads/125946135.pdf>

Harris, A., Jones, M. a Crick, T. (2020) 'Curriculum leadership: a critical contributor to school and system improvement', *School Leadership and Management*, 40(1), tt. 1-4.

Hawthorne, H. (2023) *Effective Interventions in Education: Types and Examples*. Ar gael o: <https://www.highspeedtraining.co.uk/hub/effective-interventions-in-education/> (Darllenwyd: 5 Ionawr 2023).

Iorwerth, H. (2020) *Nodyn briffio Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru*. Ar gael o: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/media/bpijarp0/y-gymraeg-ar-gweithlu-addysg-statudol-yng-nghymru.pdf> (Darllenwyd: 11 Ionawr 2024).

Llywodraeth Cymru (2018) *Additional learning needs (ALN) transformation programme*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-v2.pdf> (Darllenwyd: 5 Ionawr 2024).

Llywodraeth Cymru (2019) *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/api/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf> (Darllenwyd: 6 Ionawr 2024).

Margolis, A. (2020) 'Zone of Proximal Development, Scaffolding and Teaching Practice', *Cultural-Historical Psychology*, 16(3), tt. 15-26. Ar gael o: <https://doi.org/10.17759/chp.2020160303>

Martin, F. a Bolliger, D. (2018) 'Engagement matters: Student perceptions on the importance of engagement strategies in the online learning environment', *Online Learning*, 22(1), tt. 205-222. Ar gael o: doi:10.24059/olj.v22i1.1092

McMillan, D. a McConnel, B. a O'Sullivan, H. (2014) 'Continuing professional development – why bother? Perceptions and motivations of teachers in Ireland', *Professional Development in Education*, 42(1), tt. 150-167. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/19415257.2014.952044>

Nilholm, C. (2021) 'Research about inclusive education in 2020 – how can we improve our theories in order to change practice?', *European Journal of Special Needs Education*, 36(3), tt. 358-370.

Powys (dim dyddiad) *ALN Transformation*. Ar gael o: <https://en.powys.gov.uk/article/6360/ALN-Transformation> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (dim dyddiad) *Inspire*. Ar gael o: <https://www.uwtsd.ac.uk/inspire/> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Rodd, J. (2020) *Leadership in Early Childhood*. 4ydd arg. New York: Routledge.

Scottish Government (2022) *Using intersectionality to understand structural inequality in Scotland: evidence synthesis*. Ar gael o: <https://www.gov.scot/publications/using-intersectionality-understand-structural-inequality-scotland-evidence-synthesis/pages/3/> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Senedd Cymru (2017) *Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6)*. Ar gael o: <https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld10872/sub-ld10872-w.pdf> (Darllenwyd: 11 Ionawr 2024).

Senedd Cymru (2023) *Targed miliwn o siaradwyr Cymraeg mewn perygl oherwydd prinder athrawon*. Ar gael o: <https://senedd.cymru/senedd-nawr/newyddion/targed-miliwn-o-siaradwyr-cymraeg-mewn-perygl-oherwydd-prinder-athrawon/> (11 Ionawr 2024).

Shutterstock (dim dyddiad a) *Mentoring Cartoon royalty-free images*. Ar gael o: <https://www.shutterstock.com/search/mentoring-cartoon?consentChanged=true> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Shuttershock (dim dyddiad b) *Cartoon Teacher royalty-free images*. Ar gael o: <https://www.shutterstock.com/search/cartoon-teacher> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Shuttershock (dim dyddiad c) *Teacher Cartoon royalty-free images*. Ar gael o: <https://www.shutterstock.com/search/teacher-cartoon> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2023).

Snap Cymru (dim dyddiad) *Individual Development Plan (IDP)*. Ar gael o: <https://www.snapcymru.org/get-support/idps/> (Darllenwyd: 7 Ionawr 2024).

The Autism Page (2019) *One Page Profile*. Ar gael o: <https://www.theautismpage.com/one-page-profile/> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

UNICEF (2019) *A summary of the UN Convention on the Rights of the Child*. Ar gael o: https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf (Darllenwyd: 5 Ionawr 2024).

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin (dim dyddiad) *Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin*. Ar gael o: <https://www.yggbme.org/> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Ysgol Gynradd Llanddarog (2017) *Polisi Anghenion Gofal Iechyd Ysgolion*. Ar gael o: https://drive.google.com/drive/folders/1V_bwaoR4f3i8OK7SyscnlUTReUyc6QtD (Darllenwyd: 8 Ionawr 2024).

Ysgol Gynradd Llangynnwr (dim dyddiad) *Ysgol Gynradd Llangynnwr*. Ar gael o: https://www.llangynnwr.ysgolccc.cymru/?doing_wp_cron=1705100509.6004960536956787109375 (Darllenwyd: 12 Ionawr 2024).

Knight, C. a Crick, T. (2021) 'The role of culture and context in shaping an inclusive curriculum: a case study of Wales', *ENCU Review of Education*. Ar gael o: <https://doi.org/10.1177/20965311211039858>

University of New Brunswick (dim dyddiad) *Variety in assignment and assessment methods*. Ar gael o: <https://www.unb.ca/fredericton/cetl/services/teaching-tips/assessment-methods/variety-in-assignment-and-assessment-methods.html>

(Darllenwyd: 10 Ionawr 2024).

Vectors (dim dyddiad) *Graduate Student Cartoon*. Ar gael o: <https://www.vecteezy.com/vector-art/25755106-graduate-student-cartoon-avatar-on-white-background-elements-graduating-student-illustration-vector-people-illustration>

(Darllenwyd: 12 Ionawr 2014).

Vincent, J. a Ralston, K. (2019) 'Trainee teachers' knowledge of autism: implications for understanding and inclusive practice', *Oxford Review of Education*, 46(2), tt. 202-221. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/03054985.2019.1645651>